

Rhwydwaith Cynggori  
Cenedlaethol Cymru

Adolygiad Blynyddol o  
Gynllun Gweithredu  
Gwybodaeth a Chyngor  
Llywodraeth Cymru

---

12 Mehefin 2017

## **Annwyl Ysgrifennydd y Cabinet**

Mae'n bleser cael cyflwyno i chi yr Adolygiad Blynyddol cyntaf hwn o Gynllun Gweithredu Gwybodaeth a Chyngor Llywodraeth Cymru. Mae'r adolygiad wedi cael ei gynnal gan Rwydwaith Cynghori Cenedlaethol Cymru ac mae'n nodi bod cynnydd wedi cael ei wneud ers i chi gyhoeddi eich cynllun fis Rhagfyr y llynedd.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod ers dyddiau cynnar datganoli y rôl bwysig sy'n cael ei chwarae gan y gwasanaethau cynghori mewn gwella bywydau pobl Cymru. Mae cefnogaeth arwyddocaol ac adnoddau sylweddol wedi cael eu buddsoddi mewn gwasanaethau cynghori er mwyn cael effaith bositif, fel y cadarnhawyd gan werthusiad annibynnol.

Yn dilyn y toriadau i gymorth cyfreithiol a chyllidebau awdurdodau lleol fel rhan o raglen cyni Llywodraeth San Steffan, aethoch ati gyda Jane Hutt AC i gomisiynu ar y cyd Adolygiad o Wasanaethau Cynghori yng Nghymru, a gyhoeddwyd yn 2013. Mae Gweinidogion / Ysgrifenyddion Cabinet olynol wedi bwrw ymlaen ag argymhellion yr adolygiad hwnnw, gyda Rhwydwaith Cynghori Cenedlaethol Cymru yn cael y cyfrifoldeb gan eich rhagflaenydd, Lesley Griffiths AC, am gynghori ar ddull mwy strategol o ddatblygu gwasanaethau cynghori ledled Cymru.

Pan ddaethoch chi'n Ysgrifennydd y Cabinet ar gyfer Cymunedau a Phlant yr haf diwethaf, cynigiodd y Rhwydwaith ffordd ymlaen ar gyfer gwasanaethau cynghori yng Nghymru. Gofynnwyd gennych chi am Gynllun Gweithredu ymarferol i greu gwelliannau drwy weithio ar y cyd, ac aeth y Rhwydwaith ac eraill ati i helpu eich swyddogion i ddatblygu'r Cynllun, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2016. Mae'r adroddiad sydd wedi'i atodi'n dangos y cynnydd sydd wedi'i wneud yn ystod blwyddyn rannol gyntaf y Cynllun Gweithredu.

Mae'n bleser cael dweud bod cynnydd da wedi cael ei wneud mewn sawl maes yn y Cynllun Gweithredu er colli momentwm ar ôl cyhoeddi, oherwydd oedi am bedwar mis gyda recriwtio staff â phrofiad priodol.

Mae oedi wedi bod gydag amserlen y mapio, y dadansoddiad o anghenion, y fframwaith ansawdd, y negeseuon allweddol a'r cadarnhau ar ffrydiau cyllido mewnol i gyd o ganlyniad, ond maent yn gwneud cynnydd yn awr a byddant yn dechrau cyflawni yn ystod y misoedd nesaf. Mae gwaith yn digwydd yn gynt na'r amserlen hefyd: mae eich swyddogion chi mewn trafodaethau gweithredol gyda'r bwriad o sicrhau bod y prosesau comisiynu cyngor yn cydfynd â'r Gwasanaeth Cynghori Ariannol; mae'r Rhwydwaith wedi dechrau trafodaethau gyda swyddogion Llywodraeth Cymru (1) i gynnwys addysg gyfreithiol gyhoeddus a gwaith i barhau i ymgorffori addysg ariannol yn natblygiad y cwricwlwm newydd i ysgolion, a (2) i gynnwys y cynllunio strategol ar wasanaethau gwybodaeth a chyngor o ansawdd da drwy waith y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol.

Mae'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Gwybodaeth a Chyngor yn gynllun pum mlynedd a fydd, fel dogfen fyw, yn cael ei diweddarau bob blwyddyn i adlewyrchu cynnydd a blaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg. Mae'r Rhwydwaith yn cyflwyno rhai argymhellion ar y tudalennau canlynol ar gyfer sut ddylid ei diweddarau nawr a byddwn yn gwneud hynny yn dilyn pob Adolygiad Blynyddol. Rydym yn cydnabod y bydd yn cymryd deng mlynedd i ddatblygu'n llawn ein gweledigaeth ar y cyd ar gyfer y sector cynghori yng Nghymru ond rydym yn credu bod cychwyn cadarn a phositif wedi'i sicrhau yn ystod blwyddyn gyntaf y Cynllun Gweithredu. Mae aelodau'r Rhwydwaith Cynghori Cenedlaethol wedi ymrwymo'n llwyr i'r dull hwn o weithredu ac yn edrych ymlaen at weithio gyda chi yn ystod y flwyddyn sydd i ddod i gyflawni yn erbyn y cynllun hwn a datgan sut arall gall y sector cynghori gyfrannu at wella bywydau pobl yng Nghymru a llesiant cenedlaethau'r dyfodol.





Yn gywir

Y Rhwydwaith Cyngori Cenedlaethol – Adolygiad Blynyddol o'r Cynllun  
Gweithredu ar gyfer Gwybodaeth a Chyngor




**Bob Chapman**  
**Cadeirydd - Rhwydwaith Cyngori Cenedlaethol Cymru**  
**12 Mehefin 2017**


Y Rhwydwaith Cyngtori Cenedlaethol – Adolygiad Blynyddol o'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Gwybodaeth a Chyngor

Cam Gweithredu	Amserlen Wreiddiol	Cynnydd	Diweddariad	Amserlen Gyfredol	Gradd RAG
<p>1. Llywodraeth Cymru i weithredu a chefnogi cyflwyno Ffamwaith Gwybodaeth ac Ansawdd Cymru (IAQF) fesul cam ar gyfer darparwyr gwybodaeth a chyngor y gyfraith Llesiant Cymdeithasol, gan gynnwys y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cefnogaeth a hyfforddiant i'r sector gwybodeath a chyngor</li> <li>• Codi ymwybyddiaeth ar gyfer y cyhoedd, darparwyr a chyllidwyr</li> </ul>	<p>Ehangu'r IAQF yn raddol rhwng Ebrill 2017 a Mawrth 2020</p>	<p>IAQF yn ei le.</p>	<p>Caffael contractwr i ddechrau gweithredu IAQF Cymru fesul cam.</p> <p>Yn ystod cam cyntaf gweithredu'r IAQF, bydd y deiliaid safonau ansawdd presennol yn cael cefnogaeth i gael eu hachredu yn erbyn safonau'r IAQF a bydd ymgysylltu ag amrywiaeth o ddarparwyr cyngor a gwybodaeth yn cael ei ddatblygu i benderfynu ar lefelau amrywiol y gefnogaeth y bydd gwahanol ddarparwyr ei hangen er mwyn cael achrediad yr IAQF. Bydd hyn yn galluogi datblygu modelau arferion gorau, deunyddiau hunan-gymorth ac ati, i gefnogi gweithredu'r IAQF yn ehangach yn ystod 2018 i 2020.</p> <p>Bydd y contractwr yn datblygu ac yn gweithredu strategaeth gyfathrebu ar gyfer Cymru i godi ymwybyddiaeth o'r IAQF a'i hybu ymhlith yr holl randdeiliaid perthnasol.</p>	<p>30.11.17</p>	
			<p>31.03.18</p>		
			<p>31.03.18</p>	 	
<p>2. Annog cyllidwyr eraill ar wasanaethau cyngori i gydnabod a mabwysiadu IAQF Cymru fel meini prawf asesu a dyfarnu</p>	<p>Dechrau yn 2017/2018</p>	<p>Yr ymgysylltu â'r Gwasanaeth Cyngori Ariannol a'r Loteri Fawr yn barhaus.</p>	<p>Bydd Llywodraeth Cymru a'r Rhwydwaith Cyngori Cenedlaethol yn parhau i ddatblygu perthnasoedd ac yn ymgysylltu â'r cyllidwyr i gyd, h.y. sefydliadau cenedlaethol, Llywodraeth Leol, ac ati.</p>	<p>31.12.18</p>	
<p>3. Llywodraeth Cymru i ymchwilio gyda phartneriaid i sefydlu gwasanaeth cefnogi arbenigol ail haen ar</p>	<p>Dechrau yn 2018/2019</p>	<p>Trafodaeth gychwynnol wedi'i chynnal gyda'r Gwasanaeth Cyngori Ariannol ynghylch ei</p>	<p>Llywodraeth Cymru a'r Rhwydwaith Cyngori Cenedlaethol yn cydnabod y gwerth yn y cynnig. Fodd bynnag, nid yw'n flaenoriaeth ar unwaith. Bydd gwerthusiad opsiynau i benderfynu ar y model ar gyfer y gwasanaeth 2<sup>il</sup> haen yn cael ei gynnal yn ystod 2018/19.</p>	<p>31.12.19</p>	

Y Rhwydwaith Cyngori Cenedlaethol – Adolygiad Blynyddol o'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Gwybodaeth a Chyngor



<p>gyfer darparwyr achrededig IAQF, i gynnwys y canlynol, os yw hynny'n briodol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Darpariaeth hyfforddi cyngorydd achrededig DPP</li> <li>• Cyngor dros y ffôn ar achosion cymhleth</li> <li>• Cynrychiolaeth uniongyrchol ar gyfer achosion prawf</li> <li>• Papurau tystiolaeth polisi achlysurol</li> </ul>		<p>gyllid i'r gwasanaeth ail haen Dyledion.</p>			
<p>4. Llywodraeth Cymru i ystyried cyfleoedd i addasu ac ymestyn IAQF Cymru i gynnwys yr amrywiaeth eang o wasanaethau cyngori a gwybodaeth.</p>	<p>2019/2020</p>		<p>Mae Llywodraeth Cymru a'r Rhwydwaith Cyngori Cenedlaethol yn cydnabod potensial yr IAQF i fod y label cyson sy'n dangos bod darparwr yn darparu gwasanaeth gwybodaeth a chynghori o ansawdd. Fodd bynnag, nid yw'n flaenoriaeth ar unwaith. Cynigir bod Llywodraeth Cymru a'r Rhwydwaith Cyngori Cenedlaethol, yn ystod 2018, yn gweithio gyda CLILC ac awdurdodau lleol ar yr IAQF sy'n cael ei fabwysiadu i ddangos ansawdd yr holl wasanaethau cysylltiedig â chyflawni'r ddyletswydd statudol o dan y ddeddfwriaeth Gwasanaethau Cymdeithasol i ddarparu 'cyngor a gwybodaeth'.</p>	<p>31.12.18</p>	
<p>5. Llywodraeth Cymru i gynnal goruchwyliaeth strategol ar IAQF Cymru</p>	<p>Blynyddol</p>		<p>Adolygiad rheolaidd gan Lywodraeth Cymru yn adrodd yn ôl i'r Rhwydwaith Cyngori Cenedlaethol ar gynnydd yn ystod cyfarfodydd yr 'Aelodau Craidd'.</p>	<p>31.03.18</p>	
<p>6. Gweithio gyda/annog datblygu rhwydweithiau lleol/rhanbarthol. Amcanion:</p>	<p>2018 ymlaen</p>	<p>Rhwydweithiau Cyngor a Gwybodaeth a Fforymau Darparwyr</p>	<p>Y Rhwydwaith Cyngori Cenedlaethol i ddysgu oddi wrth y Rhwydweithiau sydd wedi'u sefydlu i baratoi a chyhoeddi canllawiau ar rôl y rhwydweithiau lleol / rhanbarthol a'r safonau ar eu cyfer. Yr holl rwydweithiau</p>	<p>31.03.18</p>	

Y Rhwydwaith Cynghori Cenedlaethol – Adolygiad Blynyddol o'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Gwybodaeth a Chyngor

<ul style="list-style-type: none"> <li>• creu gwell siwrnai i'r cleient drwy wella prosesau cyfeirio</li> <li>• un drws ffrynt</li> <li>• cefnogaeth/cyfaill ansawdd rhithiol yn bosib</li> <li>• cynllunio lleol/ rhanbarthol</li> </ul>		<p>Cefnogi Pobl wedi'u sefydlu mewn rhannau o Gymru.</p>	<p>enedlaethol, rhanbarthol a lleol ledled Cymru e.e., grwpiau gallu ariannol; grwpiau defnyddwyr GLITEM; partneriaethau gweithredu UC/liniaru diwygio llesiant awdurdodau lleol ac ati, i gael eu mapio gan y Rhwydwaith.</p>		
<p>7. Y Rhwydwaith Cynghori Cenedlaethol i lunio a rhannu papur negeseuon allweddol</p> <p>Amcan: ymgysylltu â llunwyr polisïau a chyllidwyr – buddsoddi mewn cyngor yn bositif gydag effaith dymor hir ar dderbynyddion ac arbedion ar wariant cyhoeddus ehangach.</p>	<p>31/3/17</p>	<p>Yn cael ei ddatblygu</p>	<p>Mae is-grŵp o'r Rhwydwaith Cynghori Cenedlaethol yn gweithio ar fersiynau amrywiol o bapur negeseuon allweddol – disgwyl iddo gyhoeddi dau bapur.</p>	<p>31.07.17</p>	




Y Rhwydwaith Cynghori Cenedlaethol – Adolygiad Blynyddol o'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Gwybodaeth a Chyngor




gan gynnwys grwpiau lleiafrifol.		pobl sydd â phrofiad a gwybodaeth berthnasol.	rymuso a gweithio gyda chymunedau lleol – peilot posib i ddysgu arfer gorau. <ul style="list-style-type: none"> <li>adolygu aelodaeth y Rhwydwaith yn rheolaidd.</li> </ul>		
10. Gweithio i newid y galw dros amser o gymorth argyfwng tuag at atal Amcan: Dinasyddion sydd â gwell gwybodaeth	2020/21	Cyswllt cychwynnol wedi'i wneud ag elusennau'r DU "Law for Life" a'r "Citizenship Foundation", a gydag Adran Addysg LIC ynghylch Diwygio Cwricwlwm Ysgolion ar gyfer ieuenctid 3 i 16 oed i gynnwys "addysg gyfreithiol gyhoeddus". Ymatebion positif wedi'u derbyn gan fod y syniad hwn yn cydfynd â 'dinasyddion â gwybodaeth foesebol'.	Parhau i weithio gyda'r Adran Addysg ar ddiwygio'r cwricwlwm (31/03/2018) Llywodraeth Cymru a'r Rhwydwaith Cynghori Cenedlaethol i ystyried sut i ymgorffori gwaith 'ataliol' mewn darparu cyngor 'argyfwng'. Cynnig datblygu a dechrau cynllun peilot ar ymyriadau argyfwng yn gysylltiedig â phroblemau budd-daliadau lles neu dai.	31.03.18	
11. Llywodraeth Cymru i annog darparwyr gwybodaeth a chyngor i greu a chynnal eu cofnodion ar borthol Dewis er mwyn sicrhau'r canlynol <ul style="list-style-type: none"> <li>Bod unigolion yn gallu dod o hyd i'r help y mae arnynt ei</li> </ul>	Map wedi'i gyhoeddi yn 2016	Casglu data wedi arwain at ymarfer diddorol i ddeall y sector. <ul style="list-style-type: none"> <li>Wedi canfod problemau gyda rhannau o'r sector e.e. cofrestru gyda'r FCA ac yswiriant</li> </ul>	Mae potensial positif enfawr i ddefnyddwyr gwasanaeth; darparwyr; cyllidwyr; ac ati gael mynediad hwylus at fap rhyngweithiol sy'n manylu ar ddata cynhwysfawr a manwl gywir ar ddarparu cyngor a gwybodaeth ledled Cymru. Fodd bynnag, mae oedi wedi bod gyda'r prosiect ac mae Llywodraeth Cymru a'r Rhwydwaith Cynghori Cenedlaethol mewn trafodaethau gyda DEWIS Cymru i weithredu datrysiaidau tymor byr ar gyfer pryderon amrywiol ynghylch dilysu gwybodaeth darparwyr am y gwasanaethau a ddarperir, mapio rhannol, ac ati. Hefyd rhaid datblygu canllawiau ar gyfer darparwyr ar	31.10.17	



Y Rhwydwaith Cyngori Cenedlaethol – Adolygiad Blynyddol o'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Gwybodaeth a Chyngor

<p>angen.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Darparwyr a rhanddeiliaid eraill yn gallu cyfeirio'n effeithiol.</li> <li>• Cyllidwyr a chomisiynwyr yn gallu gweld yn glir pa wasanaethau sydd ar gael yn lleol ac yn genedlaethol fel sail i gynllunio gwasanaethau.</li> </ul>		<p>indemniad</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Diffiniad o gamddeall 'arbenigol'</li> <li>• Pryderon bod y manylion wedi dyddio eisoes</li> </ul>	<p>ddiweddaru / cynnal eu data.</p> <p>Y Rhwydweithiau Cyngori fydd â datrysiaid tymor hwy ar gyfer gwirio data darparwyr lleol a bydd yr IAQF yn cynnwys data darparwyr gwasanaethau'n cael eu dilysu'n ffurfiol yn ystod y broses achredu.</p>	31.12.18	
<p>12. Llywodraeth Cymru i gyhoeddi dadansoddiad anghenion cyngori annibynnol</p>	Ebrill 2017	<p>Cyhoeddi dadansoddiad anghenion cadarn ddiwedd mis Mehefin 2017 (yn amodol ar y gwaith cyn yr etholiad)</p> <p>Cynulleidfa – llunwyr polisïau, cyllidwyr, darparwyr gwasanaethau</p> <p>Pwrpas - help fel sail i benderfyniadau am sut orau i ddiwallu anghenion amrywiol.</p>	<p>Llywodraeth Cymru a'r Rhwydwaith Cyngori Cenedlaethol i werthuso a chytuno ar opsiynau ar gyfer comisiynu ymchwil ychwanegol i'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• y cyfryngau cyflawni a ffafirir a'r effeithiau, am nad ydynt wedi'u cynnwys yn y dadansoddiad anghenion.</li> <li>• Anghenion pobl sy'n mynd ger bron tribiwnlysoedd yng Nghymru. Sefydlu a yw pobl angen cynrychiolaeth neu a yw paratoi achos ysgrifenedig yn ddigon; pa fath o wybodaeth ddylai fod ar gael; sut gellid gwneud defnydd o'r wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd, fel canllawiau Law for Life ac ati.</li> </ul>	31.12.18	
<p>13. Y Rhwydwaith Cyngori Cenedlaethol i adlewyrchu pryderon polisi casgliadol sy'n</p>	2017/18 – gweithgor i gael ei sefydlu	<p>Cyngor Ar Bopeth, Shelter Cymru, Step Change, Awdurdodau Lleol, ac eraill, wedi</p>	<p>Bydd y Rhwydwaith Cyngori Cenedlaethol yn sefydlu gweithgor i edrych ar y potensial i ddatblygu, ar sail y ffrydiau polisi sydd wedi'u sefydlu, cyfrwng i adrodd yn ôl ar bryderon polisi casgliadol sy'n seiliedig ar dystiolaeth</p>	31.03.18	

Y Rhwydwaith Cyngori Cenedlaethol – Adolygiad Blynyddol o'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Gwybodaeth a Chyngor

seiliedig ar dystiolaeth i lunwyr polisïau.		sefydlu systemau.	yng Nghymru.		
14. Y Rhwydwaith Cyngori Cenedlaethol i fonitro'r ddarpariaeth yn erbyn y cynllun gweithredu ac adrodd yn ôl i Ysgrifennydd y Cabinet ar gyfer Cymunedau a Phlant.	Blynyddol (Ebrill)	Adolygiad wedi'i gynnal yng nghyfarfod Aelodaeth Estynedig y Rhwydwaith Cyngori Cenedlaethol a gynhaliwyd ar 27 <sup>ain</sup> Ebrill.	Yr adolygiad blynyddol cyntaf i gael ei rannu gydag Ysgrifennydd y Cabinet ar gyfer Cymunedau a Phlant ym mis Mehefin 2017.	22.06.17	
15. Llywodraeth Cymru i ystyried hwb cyngori ar gyllid i annog dull strategol cyson o weithredu gyda chyllid gwybodaeth a chyngor, yn seiliedig ar egwyddorion cytunedig sy'n cefnogi cyllidwyr a chyrrff cyflawni cenedlaethol a lleol.	2017/18 – (cynnig ar gyfer hwb wedi'i ddatblygu)	Parhau i annog proses gydweithredol ar lefel Weinidogol	Mae angen datblygu dadansoddiad manylach o'r ffrydiau cyllido amrywiol gan Lywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol Cymru a'r cyrrff cyllido sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaeth gwybodaeth a chyngor ar gyfer llesiant cymdeithasol yng Nghymru.  Gweithgor Llywodraeth Cymru a'r Rhwydwaith Cyngori Cenedlaethol i werthuso sut gellir datblygu a gweithredu cydweithredu rhwng cyllidwyr.	30.06.18  31.12.19	  
16. Llywodraeth Cymru i integreiddio eu darpariaeth a gyllidir o wasanaethau cyngori	Cam 1 o Ebrill 2018 ymlaen	Llywodraeth Cymru yn gweithio i ddatblygu a gweithredu proses gomisiynu sy'n fwy unedig yn ystod 2017-18.	Llywodraeth Cymru i ddechrau trawsnewid ei dwy ffrwd gyllido (Grantiau Gwasanaethau Cyngor Rheng Flaen a Cyngor Da, Byw'n Well) fesul cam i greu cronfa gyngor unigol a gydlynir. Bydd gwaith parhaus yn ystyried ffrydiau cyllido eraill Llywodraeth Cymru a gaiff eu hystyried mewn gwaith yn y dyfodol.	30.03.18	
17. Llywodraeth Cymru a'r Rhwydwaith Cyngori Cenedlaethol i annog cyllidwyr a chomisiynwyr	2017 - 2021	Potensial ar gyfer ystyried proses gomisiynu ar y cyd gyda'r Gwasanaeth	Llywodraeth Cymru a'r Gwasanaeth Cyngori Ariannol wedi ymrwmo i well cydweithredu gyda chyllido'r ddarpariaeth o wasanaethau cyngor ariannol/dyledion yng Nghymru. Mae'r potensial i sicrhau bod cynlluniau	31.03.18	

Y Rhwydwaith Cyngori Cenedlaethol – Adolygiad Blynyddol o'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Gwybodaeth a Chyngor

eraill i fabwysiadu'r un dull o weithredu.		Cyngori Ariannol.	comisiynu'n cyd-fynd yn cael ei ystyried ar gyfer 2018 gydag amcan tymor hwy o weithredu comisiynu ar y cyd.		
18. Cyllidwyr a chomisiynwyr gwybodaeth a chyngor i gefnogi cymysgedd o fesurau ataliol a chymorth mewn argyfwng yn seiliedig ar angen.	2017-2021		Llywodraeth Cymru a'r Rhwydwaith Cyngori Cenedlaethol wedi ymrwmo i ddatblygu dull ataliol o weithredu er mwyn sicrhau bod teuluoedd sy'n cael cyngor yn cael cymorth i gyrraedd canlyniad a gynhelir drwy liniaru'r tebygolrwydd o broblemau yn y dyfodol.	31..12.21	
19. Y Rhwydwaith Cyngori Cenedlaethol i gwmpasu gwaith pellach ar fesurau canlyniadau a rennir.	2017 - 2021		Bydd Rhwydwaith Cyngori Cenedlaethol Cymru yn rheoli'r prosiect tymor hir hwn. Bydd cam cyntaf y gwaith yn canolbwyntio ar fapio'r amrywiaeth o ganlyniadau mae cyllidwyr yn eu defnyddio ar hyn o bryd ac yn datgan canlyniadau a ddatblygwyd o'r newydd o ymyriadau cyngor ar lesiant cymdeithasol sy'n gysylltiedig â nodau llesiant a dulliau gweithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.	31.12.18	

**Argymhellion yng ngoleuni'r cynnydd sydd wedi'i wneud (neu heb ei wneud)**

Mae'r Rhwydwaith Cyngori Cenedlaethol yn argymhell y dylid rhoi ystyriaeth yn ystod y flwyddyn sydd i ddod i gomisiynu ymchwil newydd i'r cyfryngau a ffafrir ar gyfer cael gwybodaeth a chyngor, a/neu gynllunio a gweithredu cynlluniau peilot ar gyfer sut gall cyngor atal gael ei gynnwys yn y cyngor argyfwng.

**Blaenoriaethau ar gyfer 2017-18**

Mae'r Rhwydwaith Cyngori Cenedlaethol yn cynnig bod y gweithgareddau canlynol, yn nhrefn eu cyflwyno, yn flaenoriaethau ar gyfer 2017-18:

Y Rhwydwaith Cynghori Cenedlaethol – Adolygiad Blynyddol o'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Gwybodaeth a Chyngor

Gweithgaredd 16 (cysylltiedig â chyllid)

Gweithgaredd 17 (cysylltiedig â chyllid)

Gweithgaredd 1 (cysylltiedig â fframwaith ansawdd)

Gweithgaredd 8 (cysylltiedig ag ymgysylltu â Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol)

Gweithgaredd 10 (cysylltiedig ag ymgorffori cyngor ataliol ar ymyriadau cymorth mewn argyfwng)